

# Comisiynydd Yr Heddlu a Throseddau Gwent Cyllideb 2016 / 2017



**Annwyl Breswlydd,**  
A minnau'n Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent, fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau bod gennych lefelau plismona priodol. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn cynnwys paratoi a phennu'r gyllideb flynyddol sy'n cynnwys elfen heddlu eich treth gyngor (a elwir yn braesept yr heddlu).

Wrth benderfynu ar y gyllideb ar gyfer 2016/17, rwyf wedi ystyried gofynion y Prif Gwnstabl o ran darparu plismona gweithredol. Cost y gofynion hyn sydd i gyfrif am y rhan fwyaf o'm cyllideb heddlu a throseddau. Wedyn defnyddir gweddill fy nghyllideb i gomisiynu gwasanaethau gan ddarparwyr y tu allan i Heddlu Gwent, er mwyn

cyflawni blaenoriaethau fy Nghynllun Heddlu a Throseddau.

O ganlyniad i ostyngiad sylweddol yng ngrantiau'r Llywodraeth Ganolog ar gyfer plismona rheng flaen dros y pum mlynedd diwethaf a thoriadau pellach yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd Heddlu Gwent yn wynebu diffyg o £64 miliwn am y cyfnod rhwng 2008/09 a 2020/21. Hyd yn hyn, mae'r gwasanaeth plismona yng Ngwent wedi gwneud mwy na £37 miliwn o arbedion effeithlonrwydd er mwyn mynd i'r afael â'r bwlch hwn, gan gollu 300 o heddweision a nifer tebyg o staff yn sgil gwneud hynny.

Er mwyn gwrthbwysu'n rhannol weddill effaith y bwlch cyllido hwn, a chan gofio'r anawsterau y mae preswylwyr yn eu hwynebu yn y cyfnod hwn o gynydd cyllidol, rwyf wedi penderfynu pennu'r cynnydd i braesept yr heddlu o ran eiddo preswyl ar gyfradd o **3.99%** ar gyfer 2016/17. Golyga hyn y bydd cartref cyffredin yng Ngwent (eiddo Band D) yn talu **16 ceiniog** yr wythnos yn ychwanegol am blismona a

gwasanaethau cysylltiedig yn 2016/17.

Yn gyfnewid am hynny, bydd y cynnydd hwn yn galluogi Heddlu Gwent i gael cyllideb gytbwys eleni ac i recriwtio hyd at 100 o heddweision rheng flaen, y mae angen dirfawr amdanynt, dros y 2 neu 3 blynedd nesaf. Bydd hyn yn sicrhau y gall Heddlu Gwent barhau i fodloni gofynion plismona modern ac i'ch cadw'n ddiogel. Felly mae'r gyllideb yn heriol ond yn gyraeddadwy, a hynny er mwyn cyflawni fy mlaenoriaethau heddlu a throseddau.

**Dymuniadau gorau**

*Ian Johnston*  
**Ian Johnston QPM**  
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau Gwent  
Pencadlys yr Heddlu, Cwmbryn, Torfaen. NP44 2XJ

Ebost: [commissioner@gwent.pnn.police.uk](mailto:commissioner@gwent.pnn.police.uk)  
Ffôn: 01633 642200  
Gwefan: [www.gwent.pcc.police.uk](http://www.gwent.pcc.police.uk)

## Cost o gyflawni'r blaenoriaethau

	2015/16 £'000	2016/17 £'000
Cyllideb Refeniw Crynswth	<b>127,935</b>	<b>130,703</b>
Wedi Tynnu Incwm	<b>(5,591)</b>	<b>(5,828)</b>
Grantiau Penodol (Y Swyddfa Gartref)	<b>(166)</b>	<b>(750)</b>
Grantiau Penodol (Llywodraeth Cymru, Gweinyddiaeth Cyfiawnder)	<b>(4,404)</b>	<b>(4,586)</b>
Gwariant Refeniw Net	<b>117,774</b>	<b>119,539</b>
<b>Sut y telir amdani</b>		
Grant Cyffredinol yr Heddlu (Y Swyddfa Gartref)	<b>43,220</b>	<b>42,393</b>
Grant Cynnal Incwm (Llywodraeth Cymru)	<b>16,609</b>	<b>21,044</b>
Trethi Annomestig Cenedlaethol (Llywodraeth Cymru)	<b>13,088</b>	<b>9,063</b>
Archebiant Treth y Cyngor	<b>44,857</b>	<b>47,039</b>
<b>Cyfanswm Refeniw</b>	<b>117,774</b>	<b>119,539</b>

## Cyllideb Cyfalaf

Gelwir mynd i wariant o ganlyniad i ddarparu adeiladau ac asedau eraill yn wariant cyfalaf.

	2015/16 £'000	2016/17 £'000
Cyllideb Cyfalaf	<b>6,640</b>	<b>4,209</b>
Sylwer – Mae'r Grant Cyfalaf yn ffigwr dros dro.		
<b>Sut y telir amdani</b>		
Grant Cyfalaf	<b>876</b>	<b>529</b>
Cronfa Arloesi	<b>625</b>	<b>0</b>
Cyfraniad Refeniw i Gyllid	<b>0</b>	<b>498</b>
Cyfraniad o'r Gronfa Wrth Gefn	<b>5,139</b>	<b>3,182</b>
<b>Cyfanswm Cyfalaf</b>	<b>6,640</b>	<b>4,209</b>

Mae cost ad-dalu benthyciadau wedi'i gynnwys yn y gyllideb cyfalaf.

## Beth fyddwch chi'n ei dalu yn ôl Band Treth Eiddo

Band Treth	Cost
<b>A</b>	<b>£146.71</b>
<b>B</b>	<b>£171.16</b>
<b>C</b>	<b>£195.61</b>
<b>D</b>	<b>£220.06</b>
<b>E</b>	<b>£268.96</b>
<b>F</b>	<b>£317.86</b>
<b>G</b>	<b>£366.77</b>
<b>H</b>	<b>£440.12</b>
<b>I</b>	<b>£513.47</b>

